# CYFARFOD PENDERFYNIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR

**DYDD** Gwener, 18 Mehefin 2021

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** E. Dole (Aelod o’r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
J. Hancock, Swyddog Datblygu Mentrau Cymdeithasol Blaenllaw
C. Owen, Swyddog Biwro
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
**Rhith-Gyfarfod: 10.00 yb - 10.15 yb**

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 22AIN EBRILL 2021**

**PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 22ain Ebrill 2021, gan ei fod yn gywir.**

**3. GRANT TLODI BWYD CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn nodi cynigion i sefydlu cronfa trydydd parti er mwyn helpu i fynd i'r afael â thlodi bwyd ac ansicrwydd o ran bwyd. Fel rhan o'r Cais Mynd i'r Afael â Thlodi Bwyd a Mynd i'r Afael ag Ansicrwydd Bwyd i Gronfa Bontio’r UE, roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi dyrannu cyllideb o £45,591 o gyllid cyfalaf a £56,609 o gyllid refeniw i Gyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 er mwyn helpu i fynd i'r afael â thlodi bwyd yn y sir. Cynigiwyd y dylid dosbarthu'r arian hwn drwy grant trydydd parti, a weinyddir gan yr Awdurdod.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo sefydlu cronfa trydydd parti er mwyn helpu i fynd i'r afael â thlodi bwyd ac ansicrwydd o ran bwyd.**

**4. CYMORTH ARIANNOL O'R CRONFEYDD GRANTIAU CANLYNOL: CRONFA'R DEGWM**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa Degwm yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

| **Cronfa'r Degwm** | |
|---|---|
| **Yr Ymgeisydd** | **Y Dyfarniad** |
| Pontyates RFC | £3,000.00 |
| Penybanc RFC | £2,000.00 |

________________________________ ________________________

**AELOD O’R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**